# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad 2022/23 |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| **Swyddog perthnasol:** | Dewi Wyn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 19 Medi 2023 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
   Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2022/23 ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**
   Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2022/23 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch y cynnydd yn erbyn yr hyn a nodir yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 yn ystod 2022/23. Y bwriad yw darparu adroddiad cytbwys, sy'n rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiannus.

Mae adrodd yn rheolaidd yn ofyniad monitro hanfodol o fewn trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd mewn cyfarfodydd herio perfformiad Adrannol ac yn cyflwyno adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet unigol i gyfarfodydd o'r Cabinet ar gylch yn ystod y flwyddyn yn ogystal a llunio'r adroddiad hwn i werthuso cynnydd.

Eleni, am y tro cyntaf, mae hunanasesiad y Cyngor, sy'n ofyn statudol newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wedi'i ymgorffori o fewn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2022/23 **(Atodiad 1)** wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23. Yn y rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad prosiectau Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor tra mae'r ail ran yn edrych ar ein gwaith dydd i ddydd fesul adran. Mae'r trydydd rhan yn cynnwys yr hunanasesiad.

Mae’r prif fesurau wedi eu cynnwys o fewn corff yr adroddiad fel eu bod yn rhan o gyfleu'r stori yn hytrach nag o fewn tabl mesurau ar wahân.

Mae dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ac i gwblhau’r gwaith “cyn gynted ag bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae’n ymwneud â hi.”

Nodir dyletswydd hefyd i ymgynghori o leiaf unwaith mewn blwyddyn ariannol gyda phobl leol, busnesau lleol, staff y Cyngor a’r undebau llafur. Dylid defnyddio’r ymgynghoriadau hyn i gael adborth ar y graddau y mae'r awdurdod yn cyflawni'r gofynion perfformiad. Mae’n ofyn statudol fod sylw yn cael ei roi i ganlyniadau’r ymgynghoriad wrth baratoi yr hunan asesiad a chadarnheir fod hyn wedi ei wneud a’i amlygu yn y ddogfen.

Y Grŵp Llywodraethu sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o’r broses hyn o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a’i arwain ar lefel strategol.

Nodir bod rhaid yn ôl y Ddeddf cyflwyno drafft o’r adroddiad hunanasesu i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn iddo gael ei fabwysiadu yn derfynol er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ac argymhellion. Bydd angen rhoi ystyriaeth i’r rhain pan fydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno yn ffurfiol i’r Cabinet a’r Cyngor. Os oes argymhellion i newid nad ydynt yn cael eu mabwysiadu rhaid adrodd y rhesymau am hyn yn ffurfiol.

Cafodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfle i fwydo i mewn i’r broses o lunio’r adroddiad ac hefyd i ddarparu sylwadau ar fersiwn ddrafft dros yr wythnosau diwethaf.

Bu i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drafod yr hunanasesiad yn ei gyfarfod ar y 7fed o Fedi. Awgrymodd y Pwyllgor fod mân addasiadau yn cael ei wneud i eiriad rhan o’r ddogfen sy’n cyfeirio at aelodaeth y Pwyllgor a mae’r fersiwn ddiweddaraf yn adlewyrchu’r addasiadau hyn.

Yn ogystal, fe awgrymwyd y dylid ystyried darparu crynodeb o’r sail tystiolaeth ar gyfer pob rhan o’r asesiad i’r dyfodol. Mae ein trefniadau ar gyfer paratoi’r hunanasesiad yn parhau i ddatblygu felly byddwn yn rhoi sylw i hyn ynghyd â sylwadau sydd wedi eu derbyn i fod yn cynnwys mwy ar aelodau etholedig yn y trefniadau ar gyfer paratoi’r hunanasesiad nesaf.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae angen i ni adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gennym. O ganlyniad, fe welir bod yr amcanion llesiant y mae prosiectau a gwaith dydd i ddydd yr Adrannau yn cyfrannu tuag atynt wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.

Mae trefniadau adolygu ac adrodd ac asesu ar berfformiad y Cyngor wedi bod yn destun newid deddfwriaethol drwy drefniadau Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru ) 2021. Mae hyn yn gofyn i'r Cyngor fesur ei berfformiad yn erbyn tair agwedd sef;

(a) Ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol
(b) Ei fod yn defnyddio adnoddau yn economaidd, effeithiol, effeithlon a
(c) Bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithlon yn cyflawni hyn.

Mae'r adroddiad yma yn ymateb i'r gofynion newydd yma. Ceisir adborth ar gynnwys yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad drafft hwn ar gyfer 2022/23, cyn i'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen derfynol ym mis Medi 2023.

Fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun y Cyngor 2018-23(adolygiad 2022-23) paratowyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb.
Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Cyfrifoldeb Arweinyddion Prosiect yw i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

**3.3 Camau nesaf**

Bydd y Cyngor Llawn yn trafod ac yn derbyn, neu beidio, yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 28 o Fedi 2023. Byddant hefyd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau ac argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr hunanasesiad (os bydd rhai). Pan fydd yr adroddiad terfynol wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd.

Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfathrebu'r adroddiad a'r prif lwyddiannau yn weledol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy argraffu a rhannu copïau drwy gyfryngau a lleoliadau arferol y Cyngor e.e. llyfrgelloedd.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon fod cynnwys yr hunanasesiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa'r Cyngor, tra'n cydnabod bydd trefniadau paratoi'r hunanasesiad yn parhau i ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf. Rwyf yn hyderus bydd gwaith i fireinio'r asesiad o safbwynt asesu'r defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o adnoddau yn parhau dros y flwyddyn nesaf a bydd gwasanaethau'r Adran Gyllid yn cyfrannu fel sy'n briodol i'r gwaith yma.

### 4.2 Swyddog Monitro

Fel y nodir mae cynnal yr hunan asesiad yma yn rhan o ddyletswyddau statudol newydd ar y Cyngor ynglŷn ac asesu ac adrodd ar ei berfformiad. Mae sawl cam statudol yn ynghlwm a chyrraedd y pwynt yma a nodir' yr rhain yn benodol yn yr adroddiad pen ac yn yr Adroddiad Perfformiad ac Hunan Asesiad ynghyd a sut mae'r Cabinet u roi sylw i'r elfennau yma. Mae rhain yn benodol ynglŷn ag ymgynghori a barn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2022/23